



Dyma Gylchlythyr Tymhorol cyntaf Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) ar gyfer 2022, ac unwaith eto, rwy'n gobeithio'n fawr eich bod yn ddiogel ac yn dda wrth i'r ohebiaeth hon eich cyrraedd.

Wrth i mi fyfyrir ar y tri mis diwethaf, rwy'n cael fy nenu'n benodol at yr optimistiaeth gynyddol o ran pandemig y coronafeirws. Mae cyfarfodydd a digwyddiadau wyneb yn wyneb bellach yn dod yn fwy rheolaidd a bydd y cyfyngiadau Covid sy'n weddill yn cael eu tynnu'n ôl ddiwedd mis Mawrth.

Fel y byddwch yn ymwybodol, sefydlwyd PSPRC i ddod â phobl ynghyd i hyrwyddo penderfyniadau strategol a chydweithredol mewn perthynas â sgiliau. Mae cynrychiolwyr o'r byd busnes, y byd addysg a'r byd hyfforddiant yn dod ynghyd i rannu eu gwybodaeth am eu sectorau a'u dealltwriaeth ohonynt er mwyn sicrhau bod y rhanbarth yn y sefyllfa orau i ymateb i'r datblygiad gofynnol o ran sgiliau a thalent. Fel bob tro, diben yr ohebiaeth hon yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y datblygiadau sy'n ymwneud â sgiliau allweddol ar draws PSPRC dros y misoedd diwethaf. Gobeithiwn y bydd y cynnwys yn llawn gwybodaeth i chi.

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn brysur, ac rwy'n falch o weld ein bod yn agos at gael eglurder gan Lywodraeth Cymru o ran y rôl hollbwysig y byddwn yn ei chwarae trwy'r **Rhaglen Lywodraethu 2021-26** newydd - gyda chynlluniau cyffrous yn yr arfaeth.

Mewn perthynas â hyn mae Llywodraeth Cymru wedi lansio **“Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau”**. Byddwn yn eich annog i gyd i adolygu'r camau a gymerir dros dymor y Senedd a ddylai adael etifeddiaeth gadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol - **Darllenwch fwy**.

Yn olaf, byddai'n esgeulus pe na soniais am y cyfnod economaidd cythryblus a gyflwynwyd ar gefn y rhyfel yn Nwyrain Ewrop. Mae ein rhanbarth yn gartref i filoedd o ddinasyddion yr UE, y mae'r gwrthdaro wedi effeithio'n uniongyrchol ar lawer ohonynt. Yn naturiol, mae ein meddyliau gydag unigolion sydd wedi cael eu heffeithio mewn ffordd gynddrwg ynghyd â'r rhai sydd â ffrindiau a theulu yn ôl yn Wcráin. Yr ydym hefyd yn cefnogi pobl Wcráin sydd wedi gwrthsefyll y weithred greulon hon o ryfel. Rydym yn deall y bydd pobl yng Nghymru a fydd am helpu pobl mewn angen ac rydym yn falch o hyrwyddo'r dudalen we ganlynol: **Cefnogi pobl Wcráin | LLYW.CYMRU**

Leigh Hughes, Cadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau PSPRC



Digwyddiad Cynllunio Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer Rhanddeiliaid

Mae PSPRC yn gweithredu fel corff strategol sy'n cynhyrchu ac yn dadansoddi Gwybodaeth am y Farchnad Lafur sy'n cyd-fynd â data economaidd. Trwy Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2019-22, mae PSPRC wedi datblygu mecanwaith i adolygu'r ddarpariaeth sgiliau rhanbarthol a chynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethu yn y dyfodol - gan sicrhau i bob pwrpas fod cymaint o arian â phosib ar gael yn y dyfodol ac ysgogi arloesedd.

Datblygwyd y Cynllun ar y cyd â busnes, addysg a Llywodraeth Cymru - gan adlewyrchu polisi fel y'i nodir yn Ffyniant i Bawb, y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflogadwyedd, y Cynllun Polisi Sgiliau Prentisiaethau, y Cynllun Gweithredu Economaidd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae PSPRC bellach yn bwriadu datblygu Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau tair blynedd newydd ac, er mwyn adlewyrchu ysbryd cyd-adeiladu, bydd PSPRC yn cynnal digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru (CGR) ddydd Iau 26 Mai.

Mae dau bwrpas i'r digwyddiad. Yn gyntaf, rhoi hwb i ymgysylltu â chyflogwyr, rhanddeiliaid a darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 ac, yn ail, dylai'r digwyddiad roi cyfle gwyb i hyrwyddo'r Warrant Pobl Ifanc hollbwysig i gyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol ar draws De-ddwyrain Cymru ac i annog cydweithio ar draws y rhanbarth.

Caiff y Cynllun newydd ei lansio yn hydref 2022 a bydd unwaith eto'n helpu i lywio dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r agenda sgiliau ôl-16. I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r datblygiadau hyn, cysylltwch â: RegionalSkillsPartnership@newport.gov.uk



Gradd-brentisiaethau ar draws De-ddwyrain Cymru

Mae PSPRC yn gwbl gefnogol o uchelgais Llywodraeth Cymru i greu 125,000 o brentisiaethau pob oed yn ystod tymor y Cynulliad hwn ac mae wedi ymdrechu i ehangu'r cynnig prentisiaeth ar lefel uwch a lefel gradd.

Mae PSPRC yn defnyddio ei sylfaen dystiolaeth i ddylanwadu ar ddatblygiadau prentisiaeth ac yn gweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant i roi llais i alwad cyflogwyr am raglenni ar draws sectorau blaenoriaeth. Lanswyd y Rhaglen Gradd-brentisiaethau yng Nghymru ym mis Ionawr 2018, yn dilyn ei nodi fel nod allweddol yng Nghynllun Polisi Prentisiaethau a Sgiliau Llywodraeth Cymru (2017), ac fel argymhellad penodol yn Adolygiad Diamond o Ariannu Addysg Uwch (2017).

Mae gradd-brentisiaethau'n ddewis amgen i brifysgol draddodiadol sy'n rhoi cyfle i gyfuno gweithio gydag astudio rhan-amser. Mae rhaglenni'n rhoi cyfle i brentis astudio'n rhan-amser ar gyfer cymhwyster academiaidd wrth weithio'n llawn amser gyda chyflogwr - gan ennill profiad byd go iawn yn ei ddewis lwybr gyrfa wrth gael ei dalu hefyd. Yn gyffredinol, mae cyfleoedd ar gael ym maes digidol, maes peirianneg a maes gweithgynhyrchu uwch, er bod rhai prifysgolion yng Nghymru hefyd yn cynnig cyfleoedd mewn meysydd gyrfa eraill.

Dros y misoedd diwethaf, ac yn gysylltiedig ag Wythnos Prentisiaethau Cymru 2022, mae PSPRC wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i fapio'r cynnig Gradd-brentisiaethau rhanbarthol. Trwy'r gwaith hwn, mae PSPRC wedi darganfod bod Gradd-brentisiaethau'n opsiwn fforddiadwy ar gyfer recriwtio ac uwchsgilio staff a'u bod yn cael eu cynllunio wrth ystyried anghenion cyflogwyr. Gall rhaglenni helpu i gefnogi busnesau trwy rymuso'r gweithlu gyda'r sgiliau sydd eu hangen arno ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ac mae arian hefyd ar gael i gefnogi pob busnes ledled Cymru, ni waeth beth y bo'i faint.

I gael rhagor o wybodaeth am radd-brentisiaethau, [cliciwch yma](#).

»»» Marchnad lafur yfory: swyddi, sgiliau a'r newid i economi werdd

Mae PSPRC wedi bod yn cydweithio â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (PSRhau) eraill mewn perthynas â'r economi werdd ac wedi comisiynu Data Cymru i arwain prosiect ymchwil i helpu i nodi'r swyddi gwyrdd sy'n dod i'r amlwg ac i asesu'r bylchau sgiliau cysylltiedig. Roedd yr ymchwil yn eang ei natur yn bwrpasol ond gallai baratol'r ffordd ar gyfer 'ymchwil ddyfnach' yn y dyfodol i feysydd mwy penodol.

Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod amrywiaeth eang o heriau'n gysylltiedig â'r chwyldro gwyrdd sy'n cynnwys adrodd am ddiffiniadau, cwrpas a blaenoriaethau anghyson. Hefyd, gall fod anghysondeb rhwng y Llywodraeth a sectorau weithiau ac mae'r sefyllfa sy'n newid yn gyson a'r Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol (DDS) a'r Dosbarthiadau Galwedigaethol Safonol (DGS) hen ffasiwn yn creu anawsterau wrth adrodd Gwybodaeth hanfodol am y Farchnad Lafur.

Mae gwybodaeth hefyd yn awgrymu y ceir tua 6,000 o fusnesau a 9,700 o swyddi ar draws y sector carbon-isel ac ynni adnewyddadwy ledled Cymru (er bod setiau data yn gyfnewidiol). Trwy'r ymchwil, rydym wedi darganfod y gallai swyddi gwyrdd fod fel a ganlyn:

- Rolau, technolegau ac arferion newydd nad oeddent yn bodoli o'r blaen
- Trawsnewid swyddi sy'n bodoli eisoes yn swyddi gwyrdd newydd
- Cydrannau swyddi sy'n bodoli eisoes sydd angen sgiliau neu wybodaeth werdd

Ymhlith y sectorau diwydiannol yr effeithir

arnynt fwyaf gan y newid sgiliau i economi carbon isel mae Adeiladu, Trafnidiaeth a Gweithgynhyrchu sy'n cyfrif am 73% o'r swyddi y mae angen eu hailsgilio. Yn hyn o beth, mae'r CITB eisoes wedi nodi gofynion sgiliau mesuradwy a chymwysterau sy'n gysylltiedig ag ôl-osod. Yma, adroddwyd y bydd angen i Gymru gael 2500 o Reolwyr Prosiect Adeiladu erbyn 2028 (gan gynnwys Cydlynwyr Ôl-osod), 2,800 o Blymwyr a chrefftau HVAC, tua 900 o Arbenigwyr Amlen Adeiladu a 1,400 o Lafurwyr.

Ar wahân, a thrwy'r Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol, mae PSPRC hefyd yn cefnogi'r gwaith parhaus o gyflawni cyrsiau a chymwysterau sy'n gysylltiedig â'r agenda sgiliau gwyrdd.

I gael rhagor o wybodaeth, [cliciwch yma.](#)



»»» Gwarant Pobl Ifanc (GPI)

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 Llywodraeth Cymru'n nodi ymrwymiad uchelgeisiol i gyflawni'r GPI - gan gynnig cymorth i bawb o dan 25 oed i mewn i waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth.

Sefydlwyd y GPI er mwyn sicrhau na gollwyd unrhyw genhedlaeth ledled Cymru oherwydd y dirywiad economaidd a ragwelwyd a'r cynnydd mewn diweithdra oherwydd Covid a Brexit. Fodd bynnag, mae'r farchnad swyddi wedi gwella'n gynt o lawer na'r hyn a ragwelwyd ac mae'n ymddangos ei bod yn fywiog gyda'r galw mewn rhai meysydd yn drech na'r cyflenwad. Fodd bynnag, mae gan y GPI rôl bwysig i'w chwarae o hyd o ran cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nod polisi o ddod yn Gymru decach, wyrddach a mwy llwyddiannus.

Er mwyn cefnogi gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r GPI, mae PSPRC yn gweithio i nodi'r amrywiaeth eang o raglenni sydd eisoes yn cefnogi pobl ifanc ledled Deddwyrair Cymru ac i ddeall y dirwedd ranbarthol yn well. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y GPI yn gallu bodloni anghenion pobl ifanc.

Bydd yr ymarfer ymchwil bwrdd gwaith yn mynd rhagddo trwy gydol y gwanwyn a bydd yn cynnwys rhanddeiliaid a rhwydweithiau sydd mewn sefyllfa dda. Fel rhan o'r broses, bydd PSPRC hefyd yn datblygu digwyddiadau ymgysylltu a bydd yn annog cydweithio ac, fel rhan o ethos 'Tîm Cymru', bydd yn gwneud y gorau o dalent, egni ac adnoddau ar y cyd.

I gael rhagor o wybodaeth [cliciwch yma.](#)



PSPRC yn llywio llwybr adferiad Llywodraeth Cymru yn sgil Covid-19

Mae Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar yr economi a'r agenda sgiliau ers yr achosion cyntaf tua mis Ionawr 2020. I gael gwell dealltwriaeth o'r effaith ar sgiliau, mae PSPRC wedi parhau i gydgyssylltu â chyflogwyr allweddol ledled De-ddwyrain Cymru er mwyn cael Gwybodaeth feddal am y Farchnad Lafur. Defnyddiwyd hon wedyn wrth gynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethu arian sgiliau yn y dyfodol ac wrth lywio system sgiliau sy'n seiliedig ar alw.

Ers cyflwyno ein hadroddiad effaith Covid-19 diwethaf ym mis Hydref 2021, mae PSPRC wedi parhau i ymgysylltu â chyflogwyr ledled y rhanbarth i gasglu gwybodaeth feddal sydd wedi llywio Llywodraeth Cymru a'i llwybr i adferiad.

Mae adroddiadau wedi amlinellu effaith Covid-19 ar staffio, recriwtio, y galw am sgiliau a'r camgymhariad sgiliau, hyfforddiant mewnol a dysgu yn y gwaith. Mae'r canfyddiadau diweddaraf yn dangos bod llawer o fusnesau sy'n gweithredu yn y rhanbarth yn credu y bydd recriwtio staff sydd â'r sgiliau cywir yn parhau'n her sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n ymddangos bod llawer o sectorau'n cael trafferthion recriwtio'n gyson gan nad oes gan ymgeiswyr sgiliau arbenigol a phrofiad perthnasol yn aml.

Mae buddsoddi mewn dysgu a datblygu wedi cynyddu erbyn hyn i lawer o fusnesau ac mae'r ddarpariaeth hyfforddiant cyfunol bellach yn gyffredin. Yn wir, mae'n ymddangos bod hyfforddiant parhaus, Prentisiaethau a Dysgu yn y Gwaith yn hanfodol i lwyddiant yn y tymor hwy.

Mae adroddiadau hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y pandemig wedi effeithio ar yr economi ranbarthol i wahanol raddau a bod rhai sectorau'n gwella yn gyflymach nag eraill. Yn hyn o beth, mae llawer o fusnesau wedi canolbwyntio ar oroesi a 'dod trwy'r gwaethaf' ond maent bellach yn teimlo'n fwy optimistaidd oherwydd twf posibl wrth i ni fynd trwy 2022.

Gellir gweld y copi diweddaraf o adroddiad Gwybodaeth am y Farchnad Lafur - Covid-19 PSPRC yma ac mae adroddiad cryno terfynol yn cael ei lunio ar hyn o bryd a gaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2022.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r datblygiadau hyn, cysylltwch â:

RegionalSkillsPartnership@newport.gov.uk



Cymwysterau Cymru: 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol'

Mae hwn yn gyfnod cyffrous ac mae diwygio'r cwricwlwm yn cynnig cyfle gwych i'r sector addysg yng Nghymru.

Dros y misoedd diwethaf, mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ail-lunio TGAU fel rhan o gynnig cymwysterau mwy pwrpasol a chynhwysol i bobl ifanc 14 i 16 oed, ac i gefnogi uchelgais y cwricwlwm newydd i Gymru.

Ynghyd â chymwysterau TGAU newydd, mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn ystyried y cymwysterau a ddylai fod ar gael i ddysgwyr 14-16 oed fel rhan o gynnig cydlynol a chynhwysol i fodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru.

Er mwyn llywio'r broses, ac yn ysbryd cyd-adeiladu, mae Cymwysterau Cymru wedi sefydlu Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh) sy'n rhoi mewnbyn a her broffesiynol ynghyd â grwpiau eraill a ffurfiwyd i helpu i ail-lunio cymwysterau yn y dyfodol.

Hyd yma, mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi dechrau ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid sydd wedi helpu i nodi'r hyn sy'n gwneud 'cynnig cymhwyster cydlynol a chynhwysol' ar gyfer dysgwyr 14-16 oed.

Mae tystiolaeth yn cael ei chasglu ar hyn o bryd a fydd yn llywio cynigion yn y dyfodol. [Cliciwch yma](#) os ydych yn dymuno darllen mwy.

